Cynllun Strategol

2008-11

A. Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

B. Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd

C. Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf

C1. Rheolydd sy'n Datblygu

C2. Themâu Strategol

Ch. Cyflawni ein Cenhadaeth

A. Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydym wedi cwblhau'n llwyddiannus dair blynedd gyntaf ein huchelgais tymor hir i drawsffurfio'r Comisiwn i fod yn rheolydd modern ac effeithiol, sy'n canolbwyntio ar anghenion elusennau, eu cefnogwyr a'u buddiolwyr, a'r cyhoedd.

Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi ymgynghori, gwrando, ad-drefnu ac ailstrwythuro, gan ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, ymgysylltu'n fwy gweithredol ag ystod eang o randdeiliaid ac elusennau ac, yn fwy nag erioed, sefydlu ein hunain fel rheolydd effeithiol, annibynnol y sector y mae elusennau a'r cyhoedd ill dau yn ei haeddu.

Rydym wedi cyflawni hyn er gwaethaf cyllideb sy'n lleihau'n flynyddol mewn termau real, ac rydym yn falch o allu dweud ein bod wedi cyrraedd yr holl dargedau effeithlonrwydd a osodwyd i ni gan y Llywodraeth, er i ni orfod lleihau ein gweithlu gan 20% ers 2004/05. Wrth i'r cyfyngiadau ariannol dynhau, mae'n hanfodol ein bod ni'n gallu cytuno â'r Llywodraeth ar ymagwedd fwy diogel at ein cyllido yn y tymor hir. Byddwn yn edrych yn ofalus ac yn adeiladol ar y mater hwn dros y misoedd nesaf, gan geisio sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Comisiwn.

Rydym yn parhau i fod ar daith. Er bod ein hadolygiad strategol yn 2005 fel petai'n bell i ffwrdd erbyn hyn, roedd wedi sefydlu ein gweledigaeth a'n cenhadaeth newydd. Mae'r rhain yn parhau'r un fath er, yn ôl y disgwyl, ac fel y bydd rhaid i bob sefydliad ei wneud, rydym wedi edrych o'r newydd ar ein gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd. Hefyd, rydym wedi adolygu ein canlyniadau strategol er mwyn iddynt gadw i fyny â'n cynnydd a'n huchelgeisiau, ac yn unol â'r amcanion newydd a roddwyd i ni gan y Senedd yn Neddf Elusennau 2006.

Rydym eisoes wedi gwneud cryn gynnydd o ran helpu i wneud elusennau yn fwy effeithiol a thryloyw, a sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gymesur sydd wedi'i thargedu ar y meysydd risg mwyaf. Rydym yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni ond bwriadwn wneud mwy. Yn wir, rydym yn parhau i ddatblygu ein syniadau ynghylch gwella ein heffeithiolrwydd ymhellach a sicrhau bod Deddf Elusennau 2006 yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus ac yn gwasanaethu fel grym cadarnhaol ar gyfer moderneiddio'r sector.

Mae ein Cynllun Strategol newydd yn amlinellu ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n cael ei ategu gan ein Cynllun Busnes sy'n disgrifio yn fwy manwl yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni'r nodau hyn.

Awst 2008

Andrew Hind
Chief Executive

Y Fonesig Suzi Leather
Chair

B. Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd



Mae ein gwerthoedd wrth wraidd pob peth a wnawn ac yn sail i'n hymddygiad, fel sefydliad ac fel unigolion sy'n gweithio yn y Comisiwn. Mae gan y chwe gwerth yr ystyron canlynol:

Effeithiol

Gwnawn yr hyn rydym yn addo ei wneud a gwnawn y pethau sylfaenol yn iawn. Rydym yn canolbwyntio ar y canlyniad yn hytrach na'r broses. Mae ein gwaith wedi'i dargedu, yn briodol ac yn effeithlon ac yn darparu gwerth am arian. Gwnawn bethau'n dda ac rydym yn atebol i'n rhanddeiliaid.

Arbenigol

Mae persbectif unigryw gennym a stôr o wybodaeth ar y sector elusennol a'r gyfraith elusennol. Mae ein harbenigedd yn ychwanegu at waith elusennau unigol, gwaith y sector elusennol a ffydd gyhoeddus mewn elusennau.

Teg

Rydym yn trin pob rhanddeiliad yn gyson a heb ragfarn. Mae unrhyw gamau a gymerwn yn gymesur, yn deg ac yn rhesymol. Rydym yn ymddwyn mewn ffordd agored, onest a thryloyw. Rydym yn ystyried, ac yn gwerthfawrogi, amrywiaeth.

Annibynnol

Gweithredwn fel rheolydd annibynnol y sector elusennol, gan wneud ein penderfyniadau yn seiliedig ar ffeithiau pob achos unigol a gweithredu er lles gorau'r elusen, y sector a'r cyhoedd.

Arloesol

Rydym yn barod i addasu a newid a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau. Rydym yn greadigol ac yn hyblyg yn y ffordd rydym yn ymateb i'r materion a wynebwn. Ceisiwn adborth i'n helpu i arloesi. Ceisiwn annog amrywiaeth o fewn y Comisiwn a'r sector elusennol.

Ymatebol

Rydym yn gwrando ar anghenion ymddiriedolwyr a'u helusennau, a'r cyhoedd. Rydym yn ymateb yn gyflym ac mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn galluogi. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, ac yn meithrin cysylltiadau effeithiol.

C. Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf

C1. Rheolydd sy'n Datblygu

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd holl elusennau Cymru a Lloegr. Dros gyfnod ein Cynllun Corfforaethol 2006-08, roedd y Comisiwn wedi ymgymryd â rhaglen o newid a datblygiad arwyddocaol yn unol â'r genhadaeth a'r nodau strategol yr oeddem wedi'u gosod ar gyfer ein hunain.

Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi:

- adolygu ein trefn lywodraethu, ac ehangu ein Bwrdd i roi profiad ac arbenigedd ehangach i'r Comisiwn;
- creu'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, ein canolfan gyswllt aml-sianel arobryn sy'n darparu un man cyswllt a chyngor i elusennau a'r cyhoedd;
- cefnogi cyflawni darpariaethau allweddol Deddf Elusennau 2006, gan gynnwys nifer o newidiadau dadreoleiddio ar gyfer elusennau bach;
- ymgynghori'n fanwl ag elusennau a'r cyhoedd ar fudd cyhoeddus a chyhoeddi canllawiau awdurdodol i bob elusen ar y gofyniad budd cyhoeddus;
- lleihau'n sylweddol yr amser a gymerwn i roi cydsyniadau rheoleiddio a chyngor, gan ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid cyflymach a gwell;
- gwella ein hymagwedd seiliedig ar risg at sicrhau bod elusennau'n cydymffurfio â'r gyfraith;
- symleiddio ac ailganolbwyntio'r Ffurflen Flynyddol, gan ofyn llai gan elusennau bach;
- gwneud hi'n bosibl i elusennau ffeilio eu cyfrifon a'u ffurflenni gyda ni ar-lein;
- gwella'r wybodaeth a ddarparwn am elusennau i'r cyhoedd trwy ein gwefan, gan gynnwys cyhoeddi cyfrifon elusennau; a
- chyhoeddi canllawiau awdurdodol i elusennau ar faterion allweddol, gan gynnwys rôl yr ymddiriedolwyr, cydweithio a chyfuniadau, ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol gan elusennau, codi arian a masnachu.

Mae maint a chymhlethdod y sector elusennol, a'i berthynas â'r wladwriaeth a'i dinasyddion yn parhau i newid yn gyflym. Nid yw'r Comisiwn Elusennau yn gallu aros yn ei unfan, ond rhaid iddo ragweld ac ymateb yn briodol i'r newidiadau sy'n effeithio ar reoleiddio, y sector elusennol a chymdeithas ei hun. Yn ystod y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweld newid mawr yn y sector elusennol cofrestredig, wrth i elusennau a gafodd eu heithrio neu eu hesgusodi'n flaenorol rhag cofrestru yn gorfod gwneud hynny o dan ddarpariaethau newydd yn y Ddeddf Elusennau. Bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol maint y Gofrestr Elusennau, ac yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd y sector elusennol.

Ar gyfer y tair blynedd nesaf, rydym wedi rhannu ein dyheadau strategol a'n dull arfaethedig o gyflawni canlyniadau strategol yn ddwy ddogfen. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cynrychioli ein blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer 2008-11. Mae ein Cynllun Busnes yn esbonio'n fwy manwl sut y bwriadwn gyflawni ein strategaeth ac mae'n cynnwys sut y byddwn yn cyflawni mentrau newydd, blaenoriaethau a gofynion cyfreithiol yn ogystal â chynnal neu wella darparu gwasanaeth mewn meysydd craidd, o fewn gwaelodlin cyllido sy'n lleihau.

C2 Themâu strategol

Rydym wedi adnabod nifer o themâu strategol allweddol a fydd, yn ystod oes y Cynllun, yn dylanwadu ar ein blaenoriaethau, yn llywio ein perfformiad ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn ein cenhadaeth a'n Canlyniadau Strategol. Mae'r themâu strategol hyn yn adlewyrchu'r angen i'r Comisiwn adeiladu ar y cynnydd aruthrol rydym wedi'i wneud o ran datblygu ein dull rheoleiddio'r sector a gwella ein gwasanaethau, a'r angen i ni barhau i ddatblygu, moderneiddio a gwella.

Hefyd, cydnabyddwn ein bod yn gweithredu o fewn cyd-destun o ddisgwyliadau uchel a newidiol gan y sector rydym yn ei reoleiddio, y Senedd, a'r cyhoedd. Hoffwn gyflawni rhagoriaeth yn ein gwasanaethau i gwsmeriaid, ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid ac ym mhob agwedd ar ein gwaith o reoleiddio elusennau er budd cyhoeddus.

Mae ein rôl ddeuol fel rheolydd a galluogydd elusennau a'r sector elusennol wrth wraidd ein hymagwedd at gyflawni ein strategaeth.

C. Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf

Parhau a'n hymrwymiad at reoleiddio modern, seiliedig ar risg

Mae natur wirfoddol elusennau yn ei gwneud hi'n arbennig o bwysig i leihau'r baich rheoleiddio lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni ganolbwyntio fwyfwy ar ble a sut i gymhwyso ein gofynion rheoleiddio. Rhaid i ni barhau i wella'r gwasanaeth a ddarparwn a cheisio rhagoriaeth ym mhob peth a wnawn.

Mae cymesuredd ac asesu risg deallus yn sail ar gyfer ein holl waith rheoleiddio, o gofrestru cychwynnol sefydliad newydd, hyd at y safonau a osodwn ar gyfer cyflwyno gwybodaeth, i'n hystyriaeth o dwyll neu gamddefnydd o fewn elusennau.

Mae'r Ddeddf Elusennau 2006 ddiweddar wedi rhoi rôl newydd i ni, sef sicrhau bod diben elusennol er budd y cyhoedd a sicrhau ein bod yn hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus. Rydym eisoes wedi cyhoeddi canllawiau a byddwn yn parhau i ddatblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol gydag elusennau, grwpiau mantell a'r sector.

Os yw'r risgiau yn isel byddwn yn galluogi elusennau i wneud yn well trwy annog mwy o hunanreoleiddio neu drwy reoleiddio ysgafnach. Bydd ein canllawiau a'n cyngor ar gael yn gyffredinol fel bod hunanwasanaeth yn bosibl i elusennau sy'n delio â materion cyffredin, risg isel.

Byddwn yn datblygu ymhellach gweithio mewn partneriaeth â grwpiau mantell er mwyn sicrhau bod elusennau bach o fewn y grwpiau hyn yn cael cyngor clir a manwl wedi'i deilwra i'w hanghenion.

Os yw'r risgiau yn uchel rydym yn rhoi ar waith swyddogaeth gydymffurfio fanylach, gyda ffocws cryf ar fonitro rhagweithiol wedi'i seilio ar gudd-wybodaeth. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod meysydd risg uchel ac agored i niwed yn y sector elusennol ac yn ein cynorthwyo i ddarganfod, rhwystro ac atal camddefnydd mewn elusennau, a thargedu ein cymorth, cyngor ac arweiniad.

Byddwn yn canolbwyntio'r ymdrech fwyaf ar ddatrys problemau pan fydd elusennau, eu hasedau neu eu buddiolwyr mewn perygl. Byddwn yn cynnig cyngor ac arweiniad i wella'r drefn lywodraethu a datrys materion - os oes troseddu bwriadol neu os yw elusen wedi cael ei hecsploetio, byddwn yn gweithredu'n gyflym ac yn drylwyr. Rydym wedi cynyddu nifer y staff yn ein His-adran Gydymffurfio gan 50% i adlewyrchu pwysigrwydd y maes gwaith hwn. Byddwn yn moderneiddio ein gwaith cydymffurfio ymhellach ac yn datblygu ein swyddogaethau cudd-wybodaeth, monitro ac allgymorth i'n helpu ein gwaith yn y maes hwn.

Cyflawni newid sefydliadol a gwerthfawrogi ein pobl

Mae datblygu ein sefydliad, a chymell ac adeiladu ar arbenigedd ein staff yn flaenoriaeth allweddol. **Dim ond staff galluog, cryf eu cymhelliant yn y rolau iawn, gyda'r offer a'r hyfforddiant iawn i wneud eu swyddi yn effeithiol, fydd yn gallu darparu'r gwasanaethau rydym eisiau eu cynnig.** Anelwn at gael ein cydnabod fel canolfan arbenigedd, proffesiynoldeb a rhagoriaeth. Rydym yn ymrwymedig i adeiladu gweithlu amrywiol, darparu hyfforddiant, datblygiad a dysgu gwych, ac annog staff i wneud penderfyniadau sy'n briodol i'w gwybodaeth a'u profiad.

Byddwn yn:

- creu diwylliant o hyder ac ymgysylltu, gydag ymrwymiad i wella amrywiaeth a galluogi arloesi;
- datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd trwy'r sefydliad;
- codi arbenigedd yn y sefydliad trwy ddysgu a datblygu mesuradwy, rheoli dawn a darparu adnoddau mewn modd strategol;
- gwella cynhyrchedd ac effeithiolrwydd o fewn y sefydliad; a
- gweithredu model gwasanaeth newydd a gwelliannau ar gyfer darparu gwasanaeth.

Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan ein Bwrdd yn hanfodol i sicrhau bod cyfeiriad strategol clir gennym. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau bod ei berfformiad ei hun yn cael ei fesur a'i ddilysu'n allanol, gan osod y tôn ar gyfer y Comisiwn cyfan.

Pan fyddwn yn recriwtio byddwn yn defnyddio ffyrdd arloesol i adnabod a denu ymgeiswyr sydd â'r sgiliau, y profiad a'r ymagwedd fwyaf addas. Rhaid i'n gweithlu adlewyrchu amrywiaeth y sector elusennol a'r cyhoedd hefyd.

Cydnabyddwn fod amrywiaeth yn golygu mwy na dim ond cydymffurfio â dyletswyddau statudol o ran rhyw, ethnigrwydd, anabledd a chred. Bydd yn ymwneud â chael gwir amrywiaeth meddwl, sgiliau, cefndir a phrofiad. Rhaid iddo fod yn rhan annatod o'n busnes ac yn rhan allweddol o sut rydym yn ymddwyn. Bydd gweithlu amrywiol yn ein helpu i gyflawni ein gwaith yn fwy effeithiol gyda'n cwsmeriaid, gan roi mwy o ddealltwriaeth i ni o'r cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo. Rydym eisiau creu amgylchedd ac ethos lle y gall amrywiaeth a thalent ffynnu, ac sy'n cynnal creadigrwydd ac arloesi.

Bydd hyrwyddo arloesi a hybu arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd trwy'r sefydliad, ac adnabod sgiliau ac anghenion allweddol yn ganolog i ddarparu gwasanaethau gwell i elusennau. Byddwn yn parhau i adeiladu arbenigedd o fewn y Comisiwn trwy ddysgu a datblygu, rheoli dawn a darparu adnodau mewn dull strategol.

C. Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf

Annibynnol, gwneud penderfyniadau gwrthrychol ac arweinyddiaeth

Rydym yn falch o'n statws: yn annibynnol ar y Llywodraeth ac yn atebol yn uniongyrchol i'r Senedd. Rydym yn gwrando ar randdeiliaid ac yn cydweithio â nhw ac yn ceisio eu barn yn gyson, ond nid ydym yn cynrychioli'r sector neu'r llywodraeth. Mae ein hygrededd fel rheolydd, unplygrwydd ein proses gwneud penderfyniadau, a hyder y sector a'r cyhoedd yn ein harweinyddiaeth i gyd yn dibynnu'n fawr ar ein hannibyniaeth.

Mae rheoleiddio annibynnol yn golygu gwneud penderfyniadau gwrthrychol, yn seiliedig ar y budd cyhoeddus a ffeithiau pob achos unigol. Mae'r Senedd yn rhoi rôl statudol i ni wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y gyfraith elusennol. Mae'n rhaid i ni gynyddu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau a rhoi arweinyddiaeth i'r sector. Trwy ein hymgysylltiad ag elusennau, a chyfathrebu ein polisi a'n hymchwil yn ehangach, byddwn yn ceisio arwain a chymryd rhan mewn dadleuon am faterion sy'n effeithio ar y sector a chanfyddiad y cyhoedd ohono.

Gall fod adegau pan fydd y rhai sy'n ymwneud â'r achos yn anghytuno â'n penderfyniadau, ac mae'n hollol briodol i'r rhai a effeithir allu herio ein casgliadau. Mae'r Tribiwnlys Elusennau newydd yn golygu bod modd profi ein penderfyniadau yn haws a bydd yn helpu'r gyfraith elusennau i ddatblygu. Mae'n ddatblygiad pwysig i'r Comisiwn ac yn cefnogi ein rôl fel rheolydd annibynnol.

Hyrwyddo atebolrwydd elusennau i'r cyhoedd

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i elusennau fod yn atebol, yn dryloyw a gweithredu gydag unplygrwydd bob amser, a rhaid i ni barhau i hyrwyddo'r ymddygiad hwn.

Dim ond 75% o elusennau sy'n cyflwyno eu cyfrifon a'u ffurflenni blynyddol o fewn y dyddiad cau statudol, sy'n golygu bod chwarter yr elusennau yn methu â bodloni'r safon atebolrwydd fwyaf sylfaenol hon. Nid yw'r pŵer gennym i gosbi elusennau'n uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio ond byddwn yn ei gwneud hi'n flaenoriaeth i wella'r perfformiad hwn.

Fel rhan o'n hymrwymiad at leihau'r baich rheoleiddio ar elusennau, gan sicrhau yr un pryd atebolrwydd i'r cyhoedd, byddwn yn parhau â'n hadolygiad parhaus o'r wybodaeth y gofynnwn i elusennau ei darparu yn eu Ffurflenni Blynyddol. Gall hyn gynnwys lleihau nifer yr elusennau y disgwylir iddynt ddarparu Ffurflen Flynyddol mewn ymateb i ymgynghoriadau o dan y Ddeddf Elusennau.

Y Gofrestr Elusennau yw'r adran yr ymwelir â hi fwyaf ar wefan y Comisiwn, ac mae'n declyn hanfodol i roddwyr a defnyddwyr sy'n ceisio'r wybodaeth orau am elusennau a'r sector. Bydd yr wybodaeth hon yn fwy hygyrch ac yn haws i'w deall. Byddwn hefyd yn gwneud y Ffurflen Gwybodaeth Gryno yn declyn mwy effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd am nodau a chyraeddiadau'r elusennau mwyaf.

C. Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf

Darparu gwasanaethau cyflymach, mwy effeithlon i'n cwsmeriaid

Fel rheolydd sy'n galluogi mae'n rhaid i ni wella'n barhaus ansawdd, ac ehangu hyd a lled, ein gwasanaeth wyneb-yn-wyneb. Byddwn yn ceisio dilysu a meincnodi allanol ar gyfer ein gwasanaethau fel rhan o'n rhaglen gwella.

Mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn disgwyl gallu defnyddio ein gwasanaethau a chael hyd i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani yn gyflym ac yn effeithlon, ac rydym yn awyddus i ddiwallu a rhagori ar y disgwyliadau hynny. Trwy ein gwefan, ein gwasanaethau ar-lein a'n canolfan gyswllt, rydym wedi gwneud gwelliannau mawr i ddarparu gwasanaeth cyflym a phersonol i gwsmeriaid ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae cwsmeriaid wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i ddatblygu'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, ein canolfan gyswllt dan-yr-unto. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu sianeli mynediad gwell i gwsmeriaid i'n gwybodaeth a'n harbenigedd. Gwyddwn fod gallu cael y cyngor gorau yn gyflym yn hanfodol i nifer o gwsmeriaid, felly rydym wedi estyn oriau agor ein canolfan gyswllt. Hefyd, byddwn yn annog staff a chwsmeriaid i ddefnyddio e-byst a'r ffôn lle bynnag y bo'n briodol.

Byddwn yn datblygu ein gwefan ymhellach, er mwyn ei gwneud hi'n haws i ymwelwyr gael yr wybodaeth y maent yn chwilio amdani a rhoi trosolwg gwell o wasanaethau'r Comisiwn. Byddwn yn canolbwyntio ar wneud ein canllawiau a'n gwybodaeth yn hawdd i'w cyrchu ar-lein. Mae'r defnydd o'r gwasanaethau a gynigiwn ar-lein, megis ffeilio cyfrifon a diweddariadau, ac mewn rhai achosion cofrestru, eisoes wedi profi'n gadarnhaol iawn. Byddwn yn gwella ac yn cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigiwn ar-lein er mwyn sicrhau mai hwn yw dewis cyntaf pob un o'n cwsmeriaid.

Mae'r ffocws hwn ar ddatblygu ein gwefan a gwasanaethau ar-lein, ac annog cwsmeriaid i ddefnyddio'r llwybrau hyn, yn allweddol er mwyn ein galluogi i ryddhau adnoddau ar gyfer gwaith mwy cymhleth a manwl, ac yn wir ar gyfer y cyfleoedd a'r sialensiau newydd a fydd yn codi. Drwy wneud hyn gallwn wella ein heffeithlonrwydd, perfformiad ac effaith.

Cwblhau gweithredu deddf elusennau 2006

Roedd Deddf Elusennau 2006 wedi moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol sy'n cynnig modd i elusennau weithredu gyda mwy o ryddid a hyblygrwydd er mwyn ymateb i newidiadau mewn cymdeithas. Rydym yn ymrwymedig i weithredu'n llawn ddarpariaethau'r Ddeddf a byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i gyflawni hyn.

O dan y Ddeddf, mae cyfrifoldebau newydd gan y Comisiwn dros gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofyniad budd cyhoeddus. Mae hon yn rôl allweddol i'r Comisiwn, ac yn ddatblygiad arwyddocaol i elusennau a dealltwriaeth y cyhoedd o elusen. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fframwaith hanfodol er mwyn i elusennau ddiwallu'r gofyniad budd cyhoeddus. Byddwn yn ymgynghori ag elusennau, cynghorwyr proffesiynol a'r cyhoedd wrth i ni ddatblygu'r fframwaith ar gyfer budd cyhoeddus, a byddwn yn datblygu ein gweithrediad o'r gofyniad yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio risg a chymesuredd.

Mae'r meysydd eraill lle mae rôl allweddol gan y Comisiwn i'w chwarae yn cynnwys:

- ymgynghori ar reoliadau, dogfennau llywodraethol enghreifftiol a materion eraill er mwyn galluogi'r Sefydliad Corfforedig Elusennol enghreifftiol i ddod i rym;
- datblygu'r drefn gyfrifyddu gywir ar gyfer elusennau sydd wedi'u hesgusodi ar hyn o bryd;
- sefydlu fframwaith a meithrin perthynas â'r prif reolyddion newydd ar gyfer rhai grwpiau o elusennau;
- deall ac egluro materion statws elusennol sy'n ymwneud â Chymdeithasau Diwydiannol a Darbodus;
- yn amodol ar gyllid, datblygu a gweithredu cam cyntaf deddfwriaeth casgliadau cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau newydd i'r Comisiwn a bydd angen i ni ystyried y defnydd effeithiol o'r pwerau hyn. Fel pob rheolydd, byddwn hefyd yn parhau i adolygu ein pwerau presennol ac ystyried a ydynt yn ddigonol i hybu'r ymddygiad y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan elusennau.

Ch. Cyflawni ein Cenhadaeth

Roedd yr adran flaenorol wedi amlinellu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd cyflawni yn erbyn y rhain yn cynnig modd i ni wireddu'r pum amcan statudol newydd ar gyfer y Comisiwn a nodir yn Neddf Elusennau 2006. Rydym wedi mabwysiadu'r amcanion statudol hyn fel y Canlyniadau Strategol rydym yn ymrwymedig i'w cyflawni yn y cyfnod 2008-11, trwy gynllun cyflwyno gwasanaeth llwyddiannus sy'n:

- ateb anghenion ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid;
- bodloni disgwyliadau'r cyhoedd a'r Senedd;
- bodloni gofynion rheoleiddio; a
- hybu sector elusennol llwyddiannus ac effeithiol.

Yn ein Cynllun Busnes, sydd i'w gyhoeddi yn gynnar ym mis Medi, byddwn yn amlinellu'r holl fentrau allweddol a fydd yn fodd i ni wireddu ein canlyniadau strategol dros y tair blynedd nesaf.

Ein Canlyniadau Strategol:

- Cynyddu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau.
- Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus.
- Sicrhau bod ymddiriedolwyr elusennau yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol wrth reoli gweinyddiad eu helusennau.
- Hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol.
- Gwella atebolrwydd elusennau i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd.


Gweledigaeth
Gweithio gyda elusennau wrth wraidd cymdeithas er budd cyhoeddus
Cenhadaeth
Cynyddu ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau trwy
sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol
gwella atebolrwydd
hyrwyddo effeithiolrwydd ac effaith
hybu budd y cyhoedd mewn elusennau
hybu ffydd a hyder y cyhoedd
Gwerthoedd
Effeithiol | Arbenigol | Teg | Annibynnol | Arloesol | Ymatebol

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**